**CYNGOR TREF Y RHYL**

Nodiadau'r cyfarfod yn dilyn cyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd
nos Fercher, 17 Mehefin 2026

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE (Maer)

Y Cynghorwyr: M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E.M. Chard, Mrs S. L. Connolly, Mrs J. M. Evans, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Cheryl Williams.

Hefyd yn bresennol:

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: B. Mellor a Ms R. S. Roberts.

**Datgan buddiannau**

Dim.

**Cofnod y penderfyniadau a wnaed**

1. Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai.
2. Cymeradwywyd cylch gorchwyl pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor.
3. Cadarnhawyd y rhestr taliadau yn Atodlen A.
4. Cadarnhawyd y taliadau yn Atodlen B i'w talu.
5. Cymeradwywyd polisi'r Cyngor Tre fi dalu lwfansau i aelodau yn 2026/27 yn unol â phenderfyniadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru.
6. Cymeradwywyd adroddiad terfyno 2025/26 yr archwilydd mewnol.
7. Cymeradwywyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26.
8. Cymeradwywyd Datganiad Blynyddol 2025/26.
9. Cymeradwywyd y cais gan drefnwyr Carnifal y Rhyl i roi tair taleb anrheg fel gwobrau yn y carnifal eleni.
10. Hysbysodd y Clerc am waith trwsio hanfodol a wnaed i wal tafarn y Lorne yn dilyn difrod storm gan y goleuadau Nadolig ar draws y stryd ar gost o £3,531.40, heb gynnwys TAW. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol wedi cymeradwyo'r taliad er mwyn galluogi cyflawni'r gwaith yn ddioed. Cymeradwyodd yr aelodau'r camau gweithredu hyn.

11. Cyflwynodd y Clerc adroddiad, mewn cyfrinachedd, ar elfen o brosiectau’r Gronfa Adfywio Leol, Parth y Cyhoedd a’r Promenâd Canolog. Cymeradwyodd yr aelodau’r camau gweithredu arfaethedig.
12. Cymeradwywyd cofnodion cyfrinachol cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol a gynhaliwyd ym mis Mawrth ac ym mis Ebrill.